

DOLEN Y TAB – 32

27–28 TACHWEDD 2020

OEDFA SUL 29 TACHWEDD

Y Parchedig Gethin Rhys fydd yn cyflwyno'r myfyrdod ar ein cyfer gyda chefnogaeth gan Marian Wynne a Gwenfil Thomas. Cawn hefyd fwynhau gwranddo ar emyn addas ar gyfer Sul cyntaf yr Adfent.

OEDFAON RHAGFYR

6 Os oes aelodau o gylch Llantrisant yn barod i gyfrannu at recordiadau byrion, plis cysylltwch â Geraint Rees (geraintrees@hotmail.com / 07816 341527). Mae sgriptiau ar gael sydd angen lleisiau iddynt. Ond mae croeso hefyd i eitemau eraill.

13 Oedfa rithiol Plant y Capel.

20 Bydd yr oedfa yn rhaglen nodwedd o eitemau gan oedolion ar gyfer y Nadolig. Cerddi, sylwadau, storïau, caneuon, atgofion ac unrhyw beth arall fyddai pobl yn barod i'w gyfrannu. Plis danfonwch yr eitemau ar *Whatsapp* i Rhiannon Humphreys ar 07861 753945 neu i Geraint Rees ar 07816 341527.

27 Hoe fach ar-lein, cyn y flwyddyn newydd.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol Adfent yr Undeb

Oedfa ar y testun 'Golau' yng ngofal y Parchg. Aled Lewis Evans, Wreccsam.
(Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a *YouTube*)

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Karen Owen, Pen-y-groes

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Brysiwch Wella

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Siencyn Griffiths, Bryncae, Llanharan a dreuliodd rai dyddiau'n ddiweddar yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg. Bellach mae Siencyn wedi dychwelyd gartref ac yn derbyn pob tendans gan Glens.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLŶNYDDOL

11 o'r gloch fore Sul 29 Tachwedd
Cynhelir y cyfarfod dros *Zoom* eleni

Manylion mynediad i'r Cyfarfod Cyffredinol:

<https://zoom.us/j/92528096987>

Cod Mynediad: 925 2809 6987

NEGES BWYSIG

gan y GCC

Ddoe oedd y cyfle olaf i gyfrannu dillad a dillad gwely ar gyfer pobol ddi-gartref. Bu'r ymateb yn syfrdanol o hael, ac mae cynlluniau ar y gweill i'w danfon i hostel ym Mhontypridd. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am gyfrannu mor hael a chyflym.

Bydd y casgliad danteithion Nadolig a nwyddau hylendid yn parhau.

BWYD A DANTEITHION NADOLIG

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn un o elusennau'r Tabernacl eleni, ac fe fyddan nhw'n derbyn cyfraniad ddiwedd y flwyddyn. O drafod gyda'r elusen, mae John yn deall y bydden nhw hefyd yn croesawu bwydydd a danteithion Nadoligaidd (bwyd sych, bisgedi, siocledi ac ati) heb anghofio y bydd llawer o blant yn eu llochesi dros y Nadolig.

Mae croeso i chi ddod â chyfraniadau i'r capel, ynghyd â nwyddau hylendid, ar foreau lau, 10–12 o'r gloch. Dydy Cymorth i Ferched Cymru ddim yn cael derbyn unrhyw nwyddau eraill oherwydd Covid-19, gan y byddai heintio yn eu gorfodi i gau'r llochesi.

Ymddiheuriadau am eich llethu â cheisiadau, ond fe fyddai'n resyn colli cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl, llawer ohonyn nhw'n blant bach, sy mewn sefyllfa amhosib o anodd.

**DIOLCH YN FAWR I CHI I GYD
AM EICH CEFNOGAETH**

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Amlenni Gwyn a Brown

A ninnau ar fin cefnu ar 2020, ac ar drothwy blwyddyn newydd, mae gan ein Trysorydd, Arwyn Jones, ddwy neges bwysig i'w trosglwyddo:

- Cyfraniadau 2020

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r plât casglu, hoffem eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau eleni ar ddydd olaf y flwyddyn. Os am gyfrannu yn ôl eich arfer, dylid anfon siec wedi ei chyflwyno i *Capel y Tabernacl Cyf.* at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Os byddwch yn anfon at Arwyn, rhowch y siec mewn amlen wen neu frown, gan nodi eich rhif aelodaeth. Ar y llaw arall gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â rhoi'ch rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.

Cod didoli: 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif: 03607499

- Amlenni 2021

Yn groes i'r drefn arferol, ni fyddwn yn argraffu amlenni pwrpasol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn hytrach, gofynnir i chi ddefnyddio'r amlenni gwyn a brown sy'n sbâr o eleni. Os na fydd digon ohonynt gennych, yna gallwch gyflwyno eich casgliadau mewn amlenni cyffredin gan gofio nodi eich rhif aelodaeth ac ysgrifennu ar yr amlen ai i gronfa'r eglwys neu'r gronfa elusennau y bwriedir y cyfraniad.

Newyddion Da

Daeth pwt o newyddion da i drigolion Efail Isaf yng nghanol yr holl ofidiau diweddar am COVID-19. Am 8 fore heddiw, Gwener 27 Tachwedd, fe ail-agorwyd siop y pentref wedi iddi fod ar gau am gyfnod helaeth. Cyn yr agoriad, mae Siva a Raji wedi elwa'n fawr ar ddata a gasglwyd ymhlith y pentrefwyr o'r hyn yr hoffent ei weld yno. Mae'n debyg bod nifer o bobl wedi crybwyll cardiau cyfarch Cymraeg, a deallwn y bydd cyflenwad amrywiol ohonynt ar gael yn y siop. Hefyd, o ddydd lau 3 Rhagfyr, cynigir gwasanaeth delifro nwyddau i gartrefi'r ardal. Wrth estyn pob dymuniad da i Siva a Raji gyda'r fenter newydd hon, rhaid pwysleisio y bydd ei llwyddiant yn dibynnu'n fawr iawn ar y gefnogaeth leol.

RULE BRITANNIA

V

DWYLO DROS Y MÔR

Dros yr wythnosau diwethaf cawsom dystiolaeth bellach o anallu Boris Johnson i ymddwyn a gweithredu fel gwladweinydd egwyddorol. Efallai na ddylem synnu'n ormodol iddo ddewis anwybyddu casgliadau cytbwys Syr Alex Allan am ymddygiad gwarthus ei Weinidog tuag at y staff yn y Swyddfa Gartref – wedi'r cyfan, roedd y Prif Weinidog wedi eistedd ar yr adroddiad am fisoedd lawer cyn datgan ei fod am anwybyddu'r dystiolaeth.

Ond er mor gywilyddus oedd y penderfyniad hwn, roedd llawer gwaeth i ddod dros y dyddiau canlynol. Pan gyhoeddodd y Canghellor, Rishi Sunak, ei arolwg ar wariant cyhoeddus bnawn Mercher, cadarnhawyd y pryder y byddai gostyngiad o £4 biliwn y flwyddyn yn y gronfa a glustnodwyd i gynorthwyo gwledydd tlotaf y byd. Cafodd yr Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol ei sefydlu yn 1997 i 'hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac i ddileu tloidi'r byd', ac roedd cefnogaeth trawsbleidiol iddi dros dair blynedd ar ddeg i gyfrannu 0.7%



o GDP y Deyrnas Gyfunol at y gwaith dyngarol amhrisiadwy hwn. Ond ym mis Medi eleni dyma'r Llywodraeth yn dileu'r Adran a throsglwyddo'r cyfrifoldebau i'r Swyddfa Dramor – yr arwydd cyntaf y byddai tro pedol ym mholisi'r Llywodraeth. Gwaeth na thorri'r addewid yn y maniffesto oedd dewis cwtogi'r gefnogaeth ariannol yng nghanol pandemig byd-eang, gweithred sy'n sicr o arwain at ddegau o filoedd o farwolaethau ychwanegol ymhlith cymunedau tlotaf y byd. Ond ar ben hynny gwnaed y datganiad ar sodlau'r cyhoeddiad i wario £5 biliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar y lluoedd arfog. Does ryfedd bod llawer iawn o'i blaid ei hun yn gandryll, a bod un aelod o'i Lywodraeth wedi ymddiswyddo. Gallwn ategu disgrifiad Justin Welby, Archesgob Caergaint, o'r penderfyniad fel un cwbl warthus.

Tra bod llawer ohonom wedi cyffroi'n lân wrth ddilyn y newyddion am dranc gwleidyddol Trump yn yr UDA, anghofwyd dros dro, o leiaf, fod preswlydd 10 Downing Street yn rhannu'r un ideoleg fofstfawr a hunanol ag ef. Trwy geisio dyrchafu grym Prydain Fawr ar draul pawb arall, mae'n anochel mai'r canlyniad fydd i ni golli parch yn rhyngwladol fel gwlad a phobl sy'n hyrwyddo'r gwerthoedd Cristnogol a dyngarol – elfen fu'n rhan o'n hetifeddiaeth am dros 1500 o flynyddoedd.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpenwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.